Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Arolygu cenedlaethol o ofal a chymorth i bobl sydd ag anableddau dysgu

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Hawdd ei ddeall

Mehefin 2016





Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni.

Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Swyddfeydd Cenedlaethol AGGCC**
**Swyddfeydd y Llywodraeth**
**Rhydycar**
**Merthyr Tydful**
**CF48 1UZ**

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu trwy'r canlynol:


**Ffôn:** 0300 7900 126
**Ebost:** cssiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.aggcc.org.uk

**Ffôn:** 0300 062 8163
**Ebost:** hiw@cymru.gsi.gov.uk
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

**Gwefan y Gydarolygiaeth:** www.arolygucymru.com


OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27822 ISBN digidol 978-1-4734-6951-8



Mae’r ddogfen Hawdd ei Darllen hon yn hir iawn.





Mae hyn oherwydd ei bod yn bwysig i bobl ag anableddau dysgu gael yr holl wybodaeth am arolygiad eu gwasanaethau.



Os ydych chi am wybod am bethau da, edrychwch am y bocsys gwyrdd.



Os ydych chi am wybod beth sydd angen ei newid, edrychwch am y bocsys pinc.




# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
|  Sut wnaethon ni'r gwaith | 7 |
|  Diolch | 13 |
| Cyngor Merthyr Tudful | 14 |
| Y Bwrdd Iechyd | 39 |




# Cyflwyniad



Rydyn ni'n edrych ar wasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu.



Rydyn ni'n gwirio a yw cynghorau lleol yn helpu pobl ag anableddau dysgu i gael y bywyd y maen nhw ei eisiau.



Rydyn ni'n gwirio a yw gwasanaetha gofal a chymorth yn:



- gweithio'n dda



- o safon dda




- diogel



Gofynnon ni gwestiynau am bob un o'r 22 cyngor lleol.




Aethon ni i weld 6 chyngor lleol.




Rydyn ni wedi ysgrifennu:




- adroddiad Cymru gyfan



- adroddiad ar gyfer pob un o’r 6 chyngor lleol




**Dyma'r adroddiad am Ferthyr Tudful**



Gweithion ni'n agos â:

- Phobl yn Gyntaf Cymru Gyfan a'r Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan. Helpon nhw ni i wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.

- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Gwnaethon nhw ein helpu ni i wirio sut mae gwasanaethau cymdeithasol a iechyd yn gweithio gyda'i gilydd.




Mae'r adroddiad hwn yn dweud:




- beth wnaethon ni ei ddarganfod




- beth rydyn ni'n meddwl y mae angen i Gyngor Merthyr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ei wneud.




# Sut wnaethon ni'r gwaith




Roedden ni am gael yr atebion i 3 chwestiwn:




1. A yw Cyngor Merthyr a'r ddau Fwrdd Iechyd yn deall beth sydd ei angen ar bobl ag anableddau dysgu a gofalwyr teuluol?

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf University Health Board

2. Pa mor dda y mae Cyngor Merthyr a'r ddau Fwrdd Iechyd am:




- roi gwybodaeth, cyngor a helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau



- gwirio a oes angen cymorth ar rywun gan y Cyngor




- cynllunio gofal




3. A oes gan Gyngor Merthyr a'r ddau Fwrdd Iechyd weledigaeth glir, ac yw pobl eraill yn cefnogi'r weledigaeth honno?




Dyma beth wnaethon ni i gael yr atebion.




Edrychodd AGGCC ar Gyngor Merthyr.




- Llenwodd Cyngor Merthyr holiaduron i ni.




- Edrychon ni ar adroddiadau arolygiadau am wasanaethau ym Merthyr.




- Siaradodd Pobl yn Gyntaf Cymru gyfan a Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan â'u haelodau a phobl eraill ym Merthyr. Dywedon nhw wrthon ni beth ddywedodd pobl.




- Treulion ni bythefnos ym Merthyr.



Gwnaethon ni:

- edrych ar ffeiliau 20 o bobl



- darganfod mwy am 8 o'r bobl hynny



- siarad â staff, cynghorwyr, darparwyr gwasanaeth a sefydliadau gwirfoddol



- aethon ni i ganolfannau dydd, prosiectau byw â chymorth a chartrefi gofal





- mynd i sgwrs gan Gyngor Merthyr a'r dda Fwrdd Iechyd am sut maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd

Edrychodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar y ddau Fwrdd Iechyd.



- Cawson ni wybod am 4 person sy'n cael cymorth y mae gofal iechyd a chymdeithasol yn talu amdano neu iechyd yn unig.



  - Edrychon ni ar eu ffeiliau.



  - Siaradon ni gyda gweithwyr proffesiynol.



  - Gwnaethon ni gwrdd â'r bobl a'u teuluoedd.




- Siaradon ni â staff iechyd a rheolwyr yn y ddau Fwrdd Iechyd.




- Cawson ni gyfarfod gyda'r tîm iechyd anableddau dysgu.




- Rhoddodd y ddau Fwrdd Iechyd a Chyngor Merthyr gyflwyniad i ni am y ffordd y maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd.




# Diolch



Rhoddodd llawer o bobl eu hamser, eu help a'u syniadau. Rydyn ni am ddweud diolch i:

- bobl ag anableddau dysgu



- rhieni a gofalwyr




- staff a rheolwyr



- darparwyr gwasanaeth



- cyrff gwirfoddol a phartneriaid eraill

# Cyngor Merthyr

## Ynglŷn â Chyngor Merthyr




Mae tua 59,000 o bobl yn byw ym Merthyr.




Rydyn ni'n credu bod tua 1,095 o oedolion ag anableddau dysgu ym Merthyr.



Ym Merthyr, mae gweithwyr cymdeithasol yn gweithio gyda phobl yn seiliedig ar ble maen nhw'n byw. Nid oes ganddyn nhw dîm arbenigol sydd ddim ond yn gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu.




Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Merthyr yn gwybod am 222 o oedolion ag anableddau dysgu, ac mae gan 153 o'r bobl hyn reolwr achos neu adolygiad.



Mae Gwasanaethau Cymdeithasol wedi adnabod y rhan fwyaf o'r bobl hyn am amser hir iawn.




O'r 153 o bobl sydd â rheolwr achos neu adolygiad:




- mae 65 o bobl yn byw gyda theuluoedd




- mae 18 o bobl yn byw mewn llety â chymorth



- mae 28 o bobl yn byw mewn cartrefi gofal



- mae 7 o bobl yn byw y tu allan i Ferthyr



- mae 78 o bobl yn mynd i'r gwasanaeth dydd



- mae 47 o bobl yn cael gofal yn y cartref



## Pethau da am yr hyn y mae Cyngor Merthyr yn ei wneud

Dyma rai pethau da am Gyngor Merthyr:




- Mae pobl sydd angen defnyddio gwahanol wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael cymorth da.



- Gwnaeth llety â chymorth gymryd lle 2 gartref grŵp. Roedd staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn gwrando ar bobl, yn gwirio beth oedd orau i bobl a gwneud yn siwr bod pobl yn gallu mynd i weld eu cartrefi newydd.



- Mae'r Cyngor yn dda am gynllunio sut i wario arian.



- Mae'r Cyngor yn dda am wirio os yw Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyffredinol yn gweithio'n dda.



- Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cwrdd â'r bobl sy'n rhedeg Cyngor Merthyr.




Dyma rai pethau da am y staff:




- Mae'r staff yn gweithio'n galed ac yn gofalu am y bobl y maen nhw’n gweithio gyda nhw.



- Mae staff yn aros am amser hir, felly maen nhw’n dod i adnabod pobl yn dda.



- Mae uwch reolwyr yn adnabod eu staff yn dda.



- Mae uwch reolwyr yn adnabod y bobl ag anableddau dysgu yn dda hefyd.




**Trefnu a chynllunio**




Mae staff yn gwybod beth mae ei angen ar bobl. Maen nhw'n meddwl am yr hyn y bydd angen ar y person yn y dyfodol. Mae'r uwch reolwyr yn clywed am hyn. Mae hyn yn helpu uwch reolwyr i gynllunio ar gyfer y dyfodol.



Rydyn ni'n meddwl bod uwch reolwyr yn gwneud yn siwr bod pobl ag anableddau dysgu yn gyffredinol yn cael gofal da a diogel.



Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Merthyr am i bobl fod yn annibynnol a chael bywydau da. Mae ganddyn nhw ffyrdd i wirio a yw Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud hyn.




Ond nid oes neb wedi creu gweledigaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ym Merthyr.




Mae uwch reolwyr yn dweud eu bod nhw am i bobl fyw'n fwy annibynnol a gwneud mwy. Rydyn ni'n credu bod hyn yn golygu y dylai mwy o bobl ddefnyddio taliadau uniongyrchol.

Mae angen i Gyngor Merthyr gael gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau. Mae angen iddyn nhw gael cynllun ar gyfer sut i gyflawni'r weledigaeth hon.




Mae angen iddyn nhw wneud hyn drwy weithio gyda phobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr teuluol, staff, y ddau Fwrdd Iechyd, darparwyr gwasanaeth eraill a grwpiau gwirfoddol.



Mae cynllunio ar gyfer y dyfodol a chytuno ar weledigaeth yn anodd oherwydd:



- mae toriadau cyllid yn golygu bod llai o uwch reolwyr



- nid yw un o'r cynghorwyr yn hyrwyddwr anableddau dysgu



- nid yw'r Cyngor yn canolbwyntio ar bobl ag anableddau dysgu



- nid oes system ar gyfer gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr teuluol a grwpiau gwirfoddol




Mae Cyngor Merthyr, Cyngor Rhondda Cynon Taf a'r ddau Fwrdd Iechyd wedi dechrau gweithio gyda'i gilydd.







- Nid ydyn nhw wedi cytuno ar weledigaeth ar gyfer y dyfodol i bobl ag anableddau dysgu.

- Maen nhw wedi dechrau gweithio gyda'i gilydd ar ffordd i ddewis, prynu a gwirio gwasanaethau gyda'i gilydd. Bydd yn waith caled i wneud i hyn ddigwydd.



Mae staff yn credu y gall gwybodaeth a chyngor helpu pobl fel na fydd angen help arnyn nhw gyda phroblemau mwy difrifol yn nes ymlaen. Mae staff yn poeni na fyddan nhw'n gallu rhoi cyngor a chymorth i bawb sy'n ffonio.



## Cael llais




Mae newidiadau mawr wedi bod i rai gwasanaethau. Mae pobl, eu teuluoedd a darparwyr gwasanaeth wedi bod yn rhan o wneud y newidiadau.

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

Nid oes gan y Cyngor:



- ffordd i bobl weithio gyda nhw i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol



- ffordd i bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol ddweud eu barn am y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio



- ffordd i bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol helpu i gynllunio gwasanaethau newydd



Mae staff yn ceisio gwrando ar bobl ag anableddau am y gofal a'r cymorth y maen nhw eisiau.



Gall pobl ag anableddau dysgu gael eiriolwr i'w helpu i ddweud eu barn neu i siarad ar eu rhan. Mae ffeiliau pobl yn dweud beth mae eiriolwyr wedi ei ddweud a'i wneud.



## Cydweithio




Mae Gwasanaethau Cymdeithasol a staff iechyd yn llwyddo i weithio'n dda gyda'i gilydd. Ond mae rhai rhwystrau:



- mae swyddfeydd timau iechyd a gofal cymdeithasol mewn gwahanol leoedd.




mae uwch reolwyr yn siarad ag uwch reolwyr yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Ond nid yw'r 2 Gyngor a'r 2 Fwrdd Iechyd yn rhannu arian, yn rhannu gwasanaethau na'n gwneud cynlluniau manwl ar gyfer y dyfodol gyda'i gilydd.



- Bwrdd Iechyd Merthyr yw Cwm Taf. Ond mae pobl ym Merthyr yn cael gwasanaethau iechyd anableddau dysgu gan Abertawe Bro Morgannwg.

- Mae Cyngor Merthyr hefyd yn gweithio gyda chynghorau eraill De Ddwyrain Cymru.




## Cynlluniau pobl




Mae asesu, cynllun gofal ac adolygiad pobl yn cael eu gwneud yn dda ac ar yr adeg iawn bron bob amser.



Mae staff yn adnabod pobl yn dda, felly mae staff yn dda am feddwl am beth fydd yn gweithio i bobl.



Mae staff yn dda am weithio gyda'i gilydd i gydlynu gofal a chymorth pobl.

Mae angen i gynlluniau:



- edrych ar sut y gall pobl fod yn fwy annibynnol



- cynllunio ar gyfer y dyfodol, yn enwedig os yw'r person yn byw gyda gofalwr hŷn



## **Gwasanaethau dydd**



Mae staff y gwasanaeth dydd yn hoffi’r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau dydd.



Mae'r gwasanaethau dydd wedi newid. Mae hyn wedi bod yn dda ac yn ddrwg:



- Mae The Bothy yn dda.
- Mae angen mwy o strwythur ar y gweithgareddau yn Nhŷ Gwyn.



- Nid yw adeilad canolfan ddydd Parc Iechyd Keir Hardie yn addas oherwydd:



  - nid oes lle i bobl ddod allan o'u cadeiriau olwyn



  - mae’r coridorau yn cael eu blocio gan gadeiriau olwyn gwag. Nid yw hyn yn ddiogel



Gofynnon ni am asesiad risg iechyd a diogelwch ar gyfer canolfan ddydd Parc Iechyd Keir Hardie. Nid yw'r Cyngor wedi rhoi un i ni.




## Cadw pobl yn ddiogel



Mae'r Cyngor yn ymddangos yn dda am gadw pobl yn ddiogel a delio ag unrhyw ddigwyddiadau.



Nid yw ffeiliau pobl bob amser yn dweud a ydyn nhw wedi bod mewn perygl yn y gorffennol.



Mae staff yn cael hyfforddiant ar y ddeddf. Mae hyn yn golygu eu bod nhw'n gwybod beth i'w wneud os nad yw rhywun yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun, neu os gallai fod angen cyfyngu ar ryddid rhywun.





## Gwybodaeth i'r cyhoedd



Mae bylchau mewn gwybodaeth i'r cyhoedd am wasanaethau anableddau dysgu.



Mae bylchau mewn gwybodaeth am gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.




Mae Arweiniad A-Z Gofalwyr Cwm Taf yn dda. Ond yr unig wybodaeth am y Gwasanaethau Cymdeithasol yw sut i gysylltu â'r tîm gwaith cymdeithasol.




Nid oes gan y Gwasanaethau Cymdeithasol unrhyw daflenni am wasanaethau anableddau dysgu.




## Staff



Mae rhai newidiadau wedi bod i'r staff ac mae rhai pobl wedi bod i ffwrdd yn sâl.



Mae staff yn cael llawer o oruchwyliaeth ar wirio achosion. Nid ydyn nhw'n cael cymaint o gymorth i feddwl, myfyrio a dysgu.




Mae angen i reolwyr wneud yn siwr bod staff yn cael eu herio i wneud beth mae'r Ddeddf newydd yn ei ddweud.



Mae staff y Cyngor yn cael hyfforddiant. Gall staff gofal cymdeithasol sy'n gweithio i sefydliadau eraill fynd ar yr hyfforddiant hefyd.



Mae gan Gyngor Merthyr ffordd newydd o wirio sut y mae staff yn dod ymlaen. Mae angen i reolwyr ddechrau defnyddio hyn gyda staff y Gwasanaethau Cymdeithasol.



## Cyfathrebu





Ychydig iawn o bobl ym Merthyr sy'n siarad Cymraeg. Felly mae bron neb am gael gwasanaeth yn Gymraeg.




Mae tua 10 o staff yn siarad Cymraeg.

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

Mae'r Cyngor yn cynnig dosbarthiadau i staff mewn:




- Cymraeg




- Iaith Arwyddion Prydain




- Saesneg fel ail iaith



## Gofalwyr teuluol

Mae gan Weithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful brosiect i wella gwasanaethau ar gyfer gofalwyr teuluol. Ond nid oes ganddyn nhw grŵp ar gyfer gofalwyr teuluol pobl ag anableddau dysgu yn unig



Gall gofalwyr teuluol ffonio rhywun maen nhw'n ei adnabod yn y tîm gwaith cymdeithasol i gael gwybodaeth a chyngor. Dywedodd gofalwyr teuluol eu bod nhw'n cael atebion defnyddiol. Gall gofalwyr teuluol ffonio p'un a oes gan yr unigolyn reolwr achos ai peidio.




Mae gofalwyr teuluol yn dweud eu bod nhw'n cymryd rhan yn llawn mewn penderfyniadau am gynllun gofal a gwasanaethau person. Mae'n ymddangos bod gofalwyr teuluol yn gyfrifol am drefnu gofal, gyda chymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.



Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr teuluol yn teimlo eu bod nhw’n cael cymorth da.




Mae rhai gofalwyr teuluol wedi cael asesiadau gofalwyr da.



Nid oes rhwydwaith neu grŵp gofalwyr teuluol.




## Cymorth yn y gymuned



Mae dibynnu llai ar y Cyngor yn golygu dibynnu mwy ar gymorth arall yn y gymuned. Mae hyn yn golygu:



- gwneud cymunedau Merthyr yn gryfach



- cael mwy o gymorth i ofalwyr teuluol, gan gynnwys rhwydweithiau gofalwyr



- cael ffordd glir i ofalwyr a phobl ag anableddau dysgu fod yn rhan o ddatblygu mathau newydd o wasanaeth



- cefnogi a herio staff i newid sut maen nhw'n meddwl

# Beth mae angen i Gyngor Merthyr ei wneud





- Cael gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol i bobl ag anableddau dysgu ym Merthyr. Rhaid i'r weledigaeth hon:
    - gael ei datblygu gyda phobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr teuluol, staff a darparwyr gwasanaeth




    - fod yn seiliedig ar y Ddeddf newydd




- Ysgrifennu cynllun manwl ar sut i ddewis, prynu a gwirio gwasanaethau anableddau dysgu.




- Darparu gwybodaeth glir, hawdd ei defnyddio i bobl sy'n gofyn am wybodaeth ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Dylai'r wybodaeth fod am:



  - wasanaethau




  - ffyrdd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol



- Gwneud yn siwr bod canolfan ddydd Parc Iechyd Keir Hardie yn ddiogel ac yn addas.



- Gweithio i wneud y gymuned yn gryfach, fel bod mwy o gyfleoedd cymunedol i bobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol.



- Gwneud yn siwr bod staff yn cael gwiriad blynyddol ar ba mor dda y maen nhw'n gwneud eu gwaith.




**Rhaid i Gyngor Merthyr ysgrifennu cynllun gwella yn dweud sut y byddan nhw'n gwneud y pethau hyn.**

**Dylai Cyngor Merthyr anfon copi o'u cynllun aton ni.**




**Byddwn ni'n gwirio a yw Cyngor Merthyr yn gwneud yr hyn y mae'n ei ddweud yn ei gynllun.**

# Y Bwrdd Iechyd

## Ynglŷn â’r Bwrdd Iechyd




Mae gan y rhan fwyaf o leoedd yng Nghymru un Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd anableddau dysgu. Ond mae gan Ferthyr:

- un Bwrdd Iechyd sy’n gyfrifol am wasanaethau (Cwm Taf)

- Bwrdd Iechyd arall sy’n rhedeg y gwasanaethau iechyd anableddau dysgu ym Merthyr



Mae hyn yn golygu y byddai person ag anableddau dysgu ym Merthyr yn defnyddio:



- gwasanaethau Cwm Taf pan fyddan nhw'n defnyddio'r un gwasanaethau iechyd â phawb arall ym Merthyr



- gwasanaethau Abertawe Bro Morgannwg pan fyddan nhw'n defnyddio gwasanaethau iechyd anableddau dysgu

Cwm Taf sy'n dal i fod yn gyfrifol, hyd yn oed os yw Bwrdd Iechyd arall yn rhedeg gwasanaethau iddyn nhw. Gallwn ni ddweud wrth Gwm Taf beth sydd angen iddyn nhw ei wneud.



Mae gwasanaethau iechyd i bobl ag anableddau dysgu yn cynnwys:



- tîm iechyd cymunedol



- tîm ymddygiad arbenigol



- dietegwyr anableddau dysgu arbenigol

Mae'r staff a'r rheolwyr sy'n rhedeg y gwasanaethau iechyd anableddau dysgu yn rhan o Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.



## Pethau da am wasanaethau iechyd ym Merthyr

Dyma rai pethau da am wasanaethau iechyd ym Merthyr:




- mae staff yn dda am helpu pobl ag anableddau dysgu i fod yn fwy iach a chael ffordd o fyw mwy iach



- mae staff yn deall yr heriau o ran bodloni anghenion iechyd pobl



- mae staff yn ei gwneud yn haws i bobl wneud pethau fel mynd at y meddyg teulu a chael archwiliadau iechyd blynyddol




- mae Cwm Taf yn defnyddio'r canllawiau 1000+ o Fywydau i wneud yn siwr bod pobl ag anableddau dysgu yn cael gwell gofal os oes angen iddyn nhw fynd i'r ysbyty



- mae staff o wahanol dimau yn gweithio gyda'i gilydd i wneud yn siwr bod pobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog yn cael cymorth iechyd da iawn




- mae staff yn deall anghenion pobl, ac yn gweithio gyda'i gilydd i feddwl am beth allai fod ei angen ar rywun yn y dyfodol



- mae staff wir am i fywydau pobl wella oherwydd beth mae staff yn ei wneud




- mae peth gwybodaeth hygyrch da yn ffeiliau pobl.



## Trefnu a chynllunio



Nid oes gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.




Mae angen i'r ddau Fwrdd Iechyd weithio gyda'i gilydd yn dda. Ar hyn o bryd, nid yw'r Byrddau Iechyd yn cynllunio llawer gyda'i gilydd.



Mae Cwm Taf yn talu Abertawe Bro Morgannwg i redeg gwasanaethau iechyd anableddau dysgu ym Merthyr. Ond nid yw Cwm Taf wedi dweud yn glir pa wasanaethau y mae'n rhaid i Abertawe Bro Morgannwg ddarparu.




Nid yw'r un o'r Byrddau Iechyd yn gwybod pa wasanaethau sydd eu hangen ar bobl. Dywedodd pobl wrthon ni:



- nid oes digon o hydrotherapi



- gall fod yn anodd cael cyfarpar pan fydd ei angen




- mae problemau wrth wneud cais am Ofal Iechyd Parhaus




Mae gan Gwm Taf gynllun sy'n dweud y byddan nhw'n dechrau cynllunio gwasanaethau iechyd anableddau dysgu.



Nid yw staff yn siwr beth mae'r Byrddau Iechyd yn ei wneud.

Mae'r Byrddau Iechyd wedi gwneud newidiadau heb siarad digon gyda'r staff.



Mae'n anodd cael eich cyflogi gan un Bwrdd Iechyd a rhedeg gwasanaethau i Fwrdd Iechyd arall.



## Cydweithio




Mae'r Byrddau Iechyd yn dechrau cynllunio ar gyfer y dyfodol. Maen nhw'n dechrau meddwl sut i weithio gydag eraill i ddewis, prynu a gwirio gwasanaethau iechyd i bobl ag anableddau dysgu.




Mae staff gofal iechyd a chymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.




Mae rhai pethau yn ei gwneud yn anodd iddyn nhw weithio gyda'i gilydd:



- mae'r timau mewn lleoedd gwahanol



  pan fydd staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda rhywun, nid yw Gwasanaethau Cymdeithasol bob amser yn dweud wrth y staff iechyd beth sy'n digwydd



- mae systemau cyfrifiadurol gwahanol gan y timau



- mae iechyd yn cadw ffeiliau pobl ar bapur, nid ar gyfrifiaduron



Weithiau mae’r staff iechyd cymunedol yn ei chael yn anodd cael meddygon teulu ac ysbytai i weithio'n dda gyda phobl ag anableddau dysgu.




Mae'r Cyngor yn dda am ddweud wrth y tîm iechyd os bydd angen cymorth iechyd ar rywun.




## Cynlluniau pobl




Mae staff iechyd yn cynnwys pobl a'u teuluoedd mewn penderfyniadau.




Mae staff iechyd yn dweud wrth weithwyr cymdeithasol beth maen nhw'n  ei wneud.




Weithiau nid yw gweithwyr cymdeithasol yn gwahodd staff iechyd i gyfarfodydd adolygu pobl. Mae hyn yn ei gwneud yn fwy anodd i wneud yn siwr bod pobl yn cael y cynllun gofal cywir.



Mae pobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog yn cael cefnogaeth dda. Mae'r gweithwyr proffesiynol i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i'w cefnogi.



**Llais**



Mae staff iechyd yn gweithio'n galed i wneud yn siwr bod pobl nad ydyn nhw'n siarad yn gallu cael llais yn eu gwasanaethau a'u cymorth eu hunain.



Mae staff iechyd wedi dweud wrthon ni:



- roedd gan ofalwyr teuluol lais yn y newidiadau i wasanaethau dydd




- byddan nhw'n gwrando ar bobl ag anableddau dysgu pan fyddan nhw'n cynllunio ar gyfer y dyfodol




Nid oes gan y Byrddau Iechyd gynllun sy'n dweud sut y bydd pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol yn cael llais mewn cynlluniau ar gyfer y dyfodol.



Nid ydyn ni'n siwr bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio o gwmpas yr hyn mae pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr teuluol yn dweud.




**Staff**



Mae staff yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi gan reolwr y tîm a'i gilydd.




Mae angen i'r Byrddau Iechyd wella o ran cyfathrebu â'u staff.




**Cadw pobl yn ddiogel**



Mae staff iechyd yn dda am gadw pobl yn ddiogel.



Nid yw'r rheolwyr yn y Byrddau Iechyd yn gwybod bob amser beth mae'r tîm iechyd cymunedol yn ei wneud i gadw pobl yn ddiogel.

## Beth mae angen i Fwrdd Iechyd Cwm Taf ei wneud





- **Rhaid** i Gwm Taf wneud yn siwr eu bod yn cynllunio'n iawn. Rhaid iddyn nhw:




  - wneud eu cynlluniau gydag Abertawe Bro Morgannwg a Chyngor Merthyr



  - gwneud yn siwr bod gweledigaeth gan bawb ar gyfer y dyfodol i bobl ag anableddau dysgu



- **Rhaid** i Gwm Taf wneud yn siwr bod digon o hydrotherapi i bobl.



- **Dylai'r** ddau Fwrdd Iechyd gael gwybod pa wasanaethau sydd angen ar bobl.

- **Rhaid** i'r ddau Fwrdd Iechyd:



  - gwneud yn siwr bod pobl yn gallu cael cyfarpar pan fydd ei angen arnyn nhw



  - gwneud yn siwr bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys staff iechyd yn asesiadau, cynlluniau gofal ac adolygiadau pobl




  - gwneud yn siwr bod systemau clir fel eu bod yn gwybod os yw staff iechyd yn poeni am ddiogelwch rhywun




- gwneud yn siwr bod staff yn gwybod beth sy'n digwydd ac yn teimlo'n rhan o'r Byrddau Iechyd




- gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd i gynllunio ar gyfer y dyfodol





- gwneud yn siwr bod y system ar gyfer gwneud cais am Ofal Iechyd Parhaus yn gweithio'n well



**Mae gan Gwm Taf bythefnos i ysgrifennu cynllun gwella yn dweud sut y byddan nhw'n gwneud y pethau hyn.**

**Rhaid i Gwm Taf anfon y cynllun i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.**




Rhaid i'r cynllun ddweud




- beth fydd Cwm Taf yn ei wneud am y pethau yn yr adroddiad hwn




- pryd fyddan nhw'n ei wneud




Dylai Cwm Taf wirio nad yw'r un problemau yn digwydd yn rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.

Rhaid i Gwm Taf ddweud wrth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru pan fyddan nhw wedi gwneud beth mae'n ei ddweud yn y cynllun.